Prosiect Cydgasglu Galw'r Sector Cyhoeddus am Fand Eang yng Nghymru

www.psba.org.uk

psba

# Manteision

## galluogi cyflenwi gwasanaethau

**Mae PSBA (Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus) yn cyflenwi ystod o wasanaethau band eang, llais, fideo a data i'r sector cyhoeddus yng Nghymru.**

Mae PSBA yn galluogi cydweithio a gwasanaethau ar y cyd fel bod dinasyddion Cymru yn cael budd o wasanaethau cyhoeddus gwell.

Mae'r rhwydwaith sy'n cynnal y gwasanaethau hyn wedi'i lunio a'i adeiladu yng Nghymru i fodloni anghenion penodol y sector cyhoeddus yng Nghymru.

## Lleihau cyfanswm y costau

Trwy gyfuno gwariant a phrynu un llwyfan dechnoleg waelodol, a reolir gan gyfunydd gwasanaethau cyfathrebu, bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cael mwy am ei arian.

Hefyd, nid oes angen i sectorau unigol niferus gaffael gwasanaethau rhwydweithio ardal eang, gan arwain at arbed costau. Mae pawb yn defnyddio llwyfan dechnoleg a rennir sydd wedi'i hadeiladu o elfennau cyffredin y rhwydwaith mewnol, gyda phob sefydliad yn cadw rheolaeth ar wariant trwy ddewis y gwasanaethau a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

## Ansawdd gwasanaeth

Caiff rhwydwaith ardal eang pob cwsmer ei ffurfweddu i gefnogi Ansawdd Gwasanaeth (QoS) fel y ffurf safonol, gan ganiatáu i gymwysiadau sy'n hanfodol i fusnesau a thraffig sy'n sensitif i amser (fel Protocol Llais dros y Rhyngrwyd, cymwysiadau cleient tenau a fideo) gael eu blaenoriaethu ar draws y rhwydwaith. Mae QoS yn rhan hanfodol o rwydwaith PSBA.

## Rhwydwaith cenedlaethol

Mae rhwydwaith PSBA yn cwmpasu Cymru gyfan gyda mynediad at dros 200 o Bwyntiau Presenoldeb. Mae nifer y pyrth i rwydweithiau allweddol eraill y sector cyhoeddus yn tyfu ac yn cynnwys JANET (ar gyfer addysg), N3 (ar gyfer iechyd) a GCSx (rhyngweithiad diogel rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau cysylltiedig).

## Rhwydweithio hydwyth

Mae rhwydwaith PSBA wedi'i lunio o'r cychwyn i ddarparu parhad gwasanaeth. Mae hydwythedd craidd yn rhan hanfodol o'r cynllun. Darperir argaeledd uchel a chysylltedd hydwyth i safleoedd allweddol hefyd.

## Diogelwch

Mae diogelwch holl wasanaethau PSBA yn hollbwysig. Mae hyn yn cynnwys diogelwch ffisegol, amddiffyn traffig y rhwydwaith wrth ei gludo a chynnal argaeledd gwasanaethau.

Mae dyluniad hydwyth, offer wedi'i leoli mewn mannau diogel sydd â mynediad rheoledig, muriau gwarchod wedi'u rheoli'n broffesiynol a'r gallu i ymdrin â thraffig hyd lefel IL3 (traffig CYFYNG) yn nodweddion allweddol sy'n tanategu diogelwch rhwydwaith PSBA.

## Monitro'r rhwydwaith

Mae offer arbenigol ar gyfer monitro'r rhwydwaith yn galluogi tîm PSBA i fonitro perfformiad cyffredinol y rhwydwaith ac i gymryd camau rhagataliol pan fo problemau posibl yn codi.

Mae gwybodaeth am fonitro'r rhwydwaith ar gael i staff o fewn sefydliadau cwsmer trwy borth gwasanaeth PSBA. Mae gan ddefnyddwyr fynediad diogel at y porth i'w galluogi i weld statws amser real eu gwasanaethau rhwydwaith ac i fonitro perfformiad gwasanaethau lleol.

## Cymorth trwy'r dydd a'r nos

Mae Logicalis, sy'n gweithredu o Nantgarw a Slough, yn darparu cymorth peirianegol trwy'r dydd a'r nos a phroses ragweithiol o ganfod diffygion. Mae tîm PSBA yn gweithredu fel man cyswllt unigol ar gyfer cyfathrebiadau cyffredinol, fel mai dim ond un rhif y mae angen i gwsmeriaid ei ffonio i gysylltu â pheiriannydd hyfforddedig o'r tîm cymorth.

30409

LOGICALIS
Cyflenwr y Rhwydwaith PSBA
The PSBA Network Supplier

Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru
Working in partnership with Welsh Assembly Government